**Adroddiad Effaith Prifysgol Aberystwyth Medi 2024 – Awst 2025**

**Cyflwyniad**

Ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym wedi ymrwymo i rymuso ein myfyrwyr i gyd i feithrin meddylfryd mentrus drwy gydol eu taith i ddatblygu eu gyrfa a'u profiad fel myfyrwyr. Mae Cynllun Cyflogadwyedd 2024 -2029 yn cynnwys ffocws ar fenter dan Flaenoriaeth 1, Nodau a Gweithredu ar gyfer 'Ymgorffori cyflogadwyedd, menter, a datblygu sgiliau ym mhob agwedd ar y meysydd llafur'. Ein nod fel rhan o Flaenoriaeth 1 yw gwella'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fenter a datblygu entrepreneuraidd ledled y brifysgol a mapio a chefnogi rhagor o integreiddio sgiliau menter ar draws y cwricwlwm. Mae'r cymorth ariannol sydd wedi dod gan Lywodraeth Cymru wedi ein galluogi i gynnig a datblygu amrywiaeth o weithgareddau menter i gefnogi ein myfyrwyr.

**Ein tîm**

Mae'r ddarpariaeth menter wedi'i gwreiddio yn rhan o dîm Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth a'i nod yw cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr a graddedigion ddatblygu eu sgiliau menter ar bob cam ym mhrofiad y myfyriwr, gan gynnig cefnogaeth i gwmnïau busnes newydd, creu mentrau cymdeithasol, a'r rheini sy'n dymuno datblygu gyrfa lawrydd. Fel rhan o ailstrwythuro'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd crëwyd dwy swydd newydd, Rheolwr Gyrfaoedd a Menter (Joanne Hiatt) sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth menter fel rheolwr llinell i'r Swyddog Menter a swydd Ymgynghorydd Datblygu'r Cwricwlwm ar gyfer Menter (Dr Alex Hubbard). Ymddeolodd Tony Orme, Ymgynghorydd Gyrfaoedd gyda chyfrifoldeb am fenter o'i swydd ym mis Rhagfyr 2024.

**Y Tîm**

Joanne Hiatt, Rheolwr Gyrfaoedd a Menter
Dr Alex Hubbard, Ymgynghorydd Datblygu'r Cwricwlwm, Menter
Louise Somerfield, Swyddog Menter

Ein cynnig i fyfyrwyr a graddedigion:

- Cyngor ac arweiniad drwy apwyntiadau 1:1
- Mentora arbenigol
- Gweithdai a digwyddiadau datblygu sgiliau
- Cystadleuaeth busnes flynyddol i fyfyrwyr
- Ymwreiddio cynnwys menter yn y cwricwlwm

I staff

- Cefnogi staff i ddatblygu asesiadau a gweithgareddau'n gysylltiedig â menter yn y cwricwlwm
- Modelau rôl/siaradwyr gwadd mewn sesiynau yn y cwricwlwm

**Adolygiad o'r Flwyddyn**

**Cymorth Dechrau Busnes**

Mae'r ddarpariaeth menter ganolog wedi cynnig 26 o ddigwyddiadau menter allgyrsiol. Yn ystod y cyfnod hwn mae 650 o fyfyrwyr wedi bod yn ymwneud â gweithgareddau ymgysylltu, grymuso ac arfogi gyda 88 o fyfyrwyr yn derbyn cymorth menter 1-1. Cyfeiriwyd myfyrwyr at Syniadau Mawr Cymru/Busnes Cymru i gael mentora arbenigol 1:1 wyneb yn wyneb ac ar-lein. Rydym ni hefyd yn cyfeirio myfyrwyr at Antur Cymru lle bo'n briodol. Parhaodd y cydweithio gyda Swyddog Arfor 2 i gefnogi'r ddarpariaeth menter a chyfeirio myfyrwyr at y ddarpariaeth.

**Cystadleuaeth Dechrau Busnes**

Cynhaliwyd rownd derfynol Cystadleuaeth InvEnterPrize ym mis Medi 2024. Eleni cyflwynwyd dau ddeg dau o syniadau busnes gyda thri deg tri o fyfyrwyr a graddedigion yn cynrychioli un ar ddeg o adrannau academaidd ledled y Brifysgol.

Cyrhaeddodd saith y rownd derfynol, gyda'r cyfle i gyflwyno eu syniadau i banel o feirniaid oedd yn cynnwys cyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Yn dilyn diwrnod dwys o gyflwyniadau a holi gan y beirniaid, dyfarnwyd dau gynnig - Pearly Bites a PropAPlant - yn enillwyr gan rannu'r wobr o £10,000 a gyllidir gan gyn-fyfyrwyr Aberystwyth.

Yn dilyn adborth a thrafod gyda myfyrwyr ac academyddion penderfynwyd ailgynllunio'r gystadleuaeth i annog ystod ehangach o fyfyrwyr o wahanol ddisgyblaethau academaidd i ymgeisio yn enwedig myfyrwyr y celfyddydau a'r dyniaethau. Ail-enwyd Cystadleuaeth InvEnterPrize yn Gystadleuaeth Dechrau Busnes i Fyfyrwyr gan ailstrwythuro'r gronfa o wobrau i gynrychioli pum categori newydd gyda gwobr o £4000 yr un, a gyllidwyd gan Gronfa Aber a Chronfa Arloesi Cymru Wledig. Y categorïau newydd yw:

- Busnes Cynaliadwy / Eco Fusnes
- Menter Gymdeithasol
- Y Celfyddydau Creadigol
- Busnes Gwyddoniaeth/Technegol
- Busnes Lleol

Yn ogystal â'r gronfa ariannol dyfarnwyd blwyddyn o aelodaeth Gyswllt am ddim ar Gampws Arloesi Menter Aberystwyth a gwobr Ariannol 'Peirianwyr mewn Busnes' i Fyfyrwyr Ffiseg/Cyfrifiadureg/Mathemateg. Lansiwyd y gystadleuaeth ar ei newydd wedd yn swyddogol ar 7 Mai 2025, gyda'r Athro Jon Timmis yn bresennol.

**Dechrau Busnes**

Ym mis Mehefin 2025 cynhaliwyd y digwyddiad Dechrau Busnes blynyddol gyda 13 o weithdai dros dri diwrnod:

- Cyflwyniad a Syniadau Mawr Cymru (SMC)
- Model Rôl Ysbrydoledig (SMC)
- Ymchwil Marchnad – Model Rôl SMC
- Marchnata Digidol – Model Rôl SMC
- Eiddo Deallusol – Swyddfa Eiddo Deallusol
- Treth – Model Rôl SMC
- Cyllid a Chadw Cyfrifon - Model Rôl SMC
- Menter Gymdeithasol – Cwmpas
- Cystadleuaeth Dechrau Busnes i Fyfyrwyr
- Busnes a'r gyfraith - Model Rôl SMC
- Cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes– Model Rôl SMC
- Y Camau Nesaf a'r gefnogaeth sydd ar gael SMC/Antur Cymru, Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd



Cafodd y Gystadleuaeth Dechrau Busnes i Fyfyrwyr ei hyrwyddo hefyd yn rhan o gyfres gweithdai Dechrau Busnes i gyfranogwyr gydag enillwyr blaenorol yn esbonio eu profiadau personol o'r gystadleuaeth; roedd hyn yn gyfle i gyfranogwyr holi am fanteision y gystadleuaeth a sut yr helpodd y gronfa wobrwyo nhw i ddatblygu eu syniadau busnes.

**Adborth Myfyrwyr**

Dyma rai enghreifftiau o adborth a gafwyd gan fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn:

*'Roedd y gystadleuaeth Menter yn brofiad gwych a rhoddodd hwb gwirioneddol i fy hyder gan fy helpu i osod cyfeiriad Cwmni Te Eleni. Daeth â chyfleoedd newydd, cysylltodd fi â mentoriaid cefnogol ac anogodd fi i barhau i wthio fy syniadau yn eu blaen*.

*'Roedd proses ymgeisio'r gystadleuaeth yn hawdd ei deall gydag ehangder da o gwestiynau i arddangos ein syniad busnes. Roedd cefnogaeth yn ystod y broses yn gadarn hefyd, a doedd dim unrhyw boen diangen yn ystod y broses chwaith. Mae'n wych cael y cyfleoedd hyn, yn enwedig i fusnesau ar gam cynnar iawn gan ei bod yn anodd gwybod ble i ddechrau, felly rydyn ni'n ddiolchgar iawn!'*

*'Hoffwn fynegi pa mor rhagorol oedd y rhaglen a gyflwynwyd yn ystod Wythnos Busnesau Newydd Myfyrwyr.*

*Roedd yn gydbwysedd gwych rhwng cyflwyniadau busnes ar yr holl elfennau i'w hystyried, pobl eraill oedd wedi dechrau eu busnesau eu hunain a rhwydweithio i sicrhau cymorth a chyngor. Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi popeth a gafodd ei ddarparu'.*

**Ymgynghorydd Datblygu'r Cwricwlwm ar gyfer Menter**

Mae rhan allweddol gan rôl newydd Ymgynghorydd Datblygu'r Cwricwlwm ar gyfer Menter i'w chwarae wrth integreiddio cyflogadwyedd cynaliadwy wedi'i deilwra a dysgu'n seiliedig ar waith. Mae'r ffocws ar ddatblygu, llywio, cefnogi, llunio a chyflwyno darpariaeth ansawdd uchel o weithgareddau menter, entrepreneuriaeth ac arloesi ar draws cyfadrannau, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu'r cwricwlwm. Penodwyd Dr Alex Hubbard i'r swydd ym mis Gorffennaf 2024 ac mae wedi dechrau adolygu datblygiad y cwricwlwm ac fel arweinydd prosiect ar gyfer datblygiadau a gyflawnir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd wrth gefnogi menter ymhlith myfyrwyr a graddedigion, gan gynnwys hwyluso'r gystadleuaeth syniadau myfyrwyr ledled y brifysgol. Mae'r rôl eisoes wedi cynorthwyo academyddion i weld sut y gallant ymwreiddio asesiadau'n gysylltiedig â menter yn y cwricwlwm a chefnogi cynnwys newydd yn gysylltiedig â menter ar gyfer modiwlau newydd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o fenter ar draws yr holl adrannau academaidd, mae menter wedi'i chynnwys yn y cynlluniau Gweithredu Cyflogadwyedd Adrannol i ysgogi myfyrwyr i ymgysylltu â gweithgareddau'n gysylltiedig â menter ac ymwreiddio menter yn y cwricwlwm.

**Hyrwyddwyr Academaidd Menter a hyfforddiant staff**

Mae 14 o Hyrwyddwyr Menter Academaidd yn mynd ati i weithio i hyrwyddo a hybu menter fel rhan hanfodol o daith y myfyriwr a chynnig cyfle i fyfyrwyr wneud y canlynol:

- Datblygu Sgiliau a Galluoedd Menter a datblygu Meddylfryd Mentrus, fydd yn fuddiol iddynt naill ai wrth weithio iddynt eu hunain (yn Entrepreneuraidd) neu weithio i sefydliad (yn Intra-preneuraidd).
- Ystyried hunangyflogaeth/gweithio llawrydd fel dewis gyrfa posibl, yn llawn neu'n rhan amser, ar ôl graddio neu'n ddiweddarach yn eu bywyd, boed drwy Fusnes neu Fenter Gymdeithasol.
- Datblygu eu sgiliau a'u profiad entrepreneuraidd drwy gyfleoedd yn seiliedig ar brofiad naill ai yn y cwricwlwm neu'n allgyrsiol i fyfyrwyr allu datblygu syniadau busnes.
- Dod yn wybodus, drwy gyngor, mentora 1:1, cyfleoedd rhwydweithio a mynediad at ofod dechrau busnes (Hen Goleg/AIEC ac ati) a chyfleoedd cyllido drwy grantiau a benthyciadau SMC/Busnes Cymru, a thrwy Gystadleuaeth Syniadau Myfyrwyr flynyddol a gyllidir gan gyn-fyfyrwyr ac a gyflwynir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn y brifysgol.

- Meithrin gwell dealltwriaeth o’r rhwystrau cyffredin at entrepreneuriaeth a wynebir gan ein myfyrwyr (gan gynnwys grwpiau ffocws a gweithio’n agos gydag Undeb y Myfyrwyr) â’r nod o fynd ati i ddileu rhwystrau i fyfyrwyr sy’n ymgymryd â gweithgareddau entrepreneuraidd drwy gyd-greu mentrau amrywiaeth a chynhwysiant.

**Canolfan Fenter – Yr Hen Goleg**

Mae’r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn rhan o’r gwaith cynllunio cynnar ar gyfer Canolfan Fenter yn yr Hen Goleg. Disgwylir iddo agor yn 2027, a bydd y lleoliad newydd yn cynnig amgylchedd ymarferol sy’n ysbrydoli, wedi’i gynllunio i gefnogi arloesi, cydweithio a menter.

Bydd y Ganolfan yn cynnwys hyd at ddeuddeg o unedau technoleg greadigol, gan gynnig cyfle i fyfyrwyr, cyn-fyfyrwyr ac entrepreneuriaid lleol ddatblygu syniadau a thyfu eu busnesau. Nid swyddfeydd yn unig fydd yr unedau hyn; byddant yn fannau lle gall creadigrwydd a datrys problemau ffynnu. Drwy fod yn rhan o’r broses gynllunio, mae’r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn sicrhau bod y Ganolfan yn cynnig mwy na chyfleusterau yn unig. Bydd yn lle sydd hefyd yn cynnig mentora, arweiniad, a chymorth strwythuredig i helpu pobl i droi eu syniadau’n fentrau llwyddiannus. Caiff cyfranogwyr fanteisio ar weithdai, cyngor un i un, a rhaglenni hyfforddi sy’n meithrin sgiliau busnes a pharodrwydd ar gyfer gyrfa. Boed ddysgu sut i gyflwyno syniadau, deall hanfodion cyllid neu ddatblygu arweinyddiaeth a gwaith tîm, bydd y Ganolfan yn cynnig cymorth ymarferol wedi’i deilwra i anghenion unigol.

